# Cronfa Waddol Cynnal

Grwpiau

Sefydliad Cymunedol Cymru

Mae Cronfa Waddol Cynnal yn grant a fydd yn ariannu prosiectau addysgol yng Ngwynedd ac Ynys Môn, a bydd yn darparu cefnogaeth i'r themâu canlynol:

- Gweithgareddau sy'n cefnogi datblygiad addysgol plant, pobl ifanc a phlant oed ysgol yn y blynyddoedd cynnar hyd at 18 oed.
- Prosiectau ysgol/coleg sy'n cefnogi hyfforddiant galwedigaethol, materion iechyd a byw'n iach.

## Grantiau ar gael

Mae grantiau o £1,000 y flwyddyn am hyd at 3 blynedd ar gael i sefydliadau.

Gellir defnyddio grantiau i ariannu cyfalaf a/neu gostau rhedeg prosiect.

## Pwy sy'n gallu ymgeisio?

Elusennau neu sefydliadau cymunedol dielw sy'n darparu gweithgareddau addysgol.

Ysgolion yng Ngwynedd neu Ynys Môn, i'w ddefnyddio at ddibenion addysgol elusennol sy'n ychwanegol at ofynion gorfodol cwricwlwm yr ysgol.

Ni roddir grantiau i dalu am unrhyw gostau sy'n dod o dan ddarpariaethau statudol.




## Sut i ymgeisio?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein trwy ein gwefan. Sylwer:

- Ni ddyfernir grantiau'n ôl-weithredol, h.y. am gostau a dynnir cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, a dychwelwyd y telerau a'r amodau llofnodedig.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grantiau'n llawn o fewn blwyddyn o dderbyn ein llythyr cynnig.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

# Ariannu sawl blwyddyn

Rydym yn cydnabod pa mor bwysig yw hi i grwpiau allu cynllunio ar gyfer y dyfodol a bod cael cyllid diogel yn gallu rhoi'r hyder a'r sicrwydd i chi ddatblygu eich prosiect dros y tymor hir. Mae Cronfa Waddol Cynnal yn cynnig cyfle i grwpiau wneud cais am gyllid aml-flwyddyn o hyd at 3 blynedd ond bydd hefyd yn parhau i gynnig cyllid 1 flwyddyn ar gyfer prosiectau neu eitemau cyfalaf bach.

I gael eich ystyried am grant tair blynedd, cwblhewch adran ychwanegol y ffurflen gais sy'n nodi sut rydych yn bwriadu datblygu eich prosiect dros y cyfnod o gyllid y gwneir cais amdano. Bydd eich cais yn dal i gael ei ystyried ar gyfer cyllid blwyddyn os nad ydych yn llwyddiannus gyda grant tair blynedd.

Rydym yn cydnabod yr her o ddod o hyd i gyllid craidd, yn enwedig yn y tymor hir.
Gall grwpiau ymgeisio am gyllid tuag at gostau craidd am hyd at dair blynedd, ar yr amod y gall y grŵp ddarparu cyfrifon am o leiaf y 12 mis diwethaf ac mae'r swm y gwneir cais amdano yn llai na 50% o'ch trosiant blynyddol. Er enghraifft, i wneud cais am grant o £1,000 y flwyddyn, dylai eich incwm blynyddol fod o leiaf £2,000.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.




Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.